



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Gymraeg
14 Mawrth 2018
Yr Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Cafwyd wyth ymgeisydd, 5 yng Nghaerdydd a 3 yn y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Rhan o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, wrth iddo dderbyn tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru.

Dewiswyd y darn hwn yn fwrriadol yn enghraifft nodweddiadol o'r math o waith y bydd cyfieithwyr ar y pryd yn ymgymryd ag ef yn rheolaidd wrth ddilyn gyrfa broffesiynol. Roedd y galwadau o ran cyflymder, cynnwys, cyfraniadau gan nifer o wahanol siaradwyr, newid cyfeiriad ac ati yn heriol, ond yn brawf teg i gyfieithydd proffesiynol, gyda digon o gyfle i ddangos sgiliau.

Darn 2: Karl Jenkins, y cyfansoddwr toreithiog o Gymru, yn cael ei gyfweld gan John Brunning ar Classic FM, ac yn trafod ei albwm newydd.

Roedd yr ail ddarn wedi'i ddewis yn fwrriadol i roi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu bod yn medru ymdopi â sefyllfa lai ffurfiol, a thraethu mwy sgysiol. Roedd yr aseswyr yn ymwybodol y gallai'r maes dan sylw fod yn anghyfarwydd, ac felly wrth bwysu a mesur gwaith yr ymgeiswyr, canolbwyntiwyd yn fwy ar eu gallu i gyfleu natur gyffredinol y drafodaeth, yn hytrach nag ar unrhyw dermau technegol penodol. Wedi dweud hynny, roedd disgwyl iddynt fod wedi manteisio'n llawn ar y nodiadau paratoi, oedd yn cynnwys cryn nifer o'r termau allweddol a allai fod yn ddieithr.

Y SAFON

Roedd safon yr ymgeiswyr yn amrywio'n fawr. Roedd gwaith y goreuon yn enghreifftiau o gyfieithu cadarn, diogel, oedd yn llwyddo i gyfleu ystyr a naws y gwreiddiol yn llawn, fel bod y gwrandawr yn cael y darlun cyflawn. Roedd eraill, gwaetha'r modd, yn cael anhawster cyfleu'r holl elfennau pwysig, ac roedd teimlad efallai nad oedd ambell un wedi cael digon o gyfle i feithrin profiad wrth gyfieithu i'r Gymraeg, gan eu bod yn ymddangos fel petaent yn blino ac yn methu cynnal y safon wrth i'r prawf fynd yn ei flaen.

Geirfa

Er bod yr ymgeiswyr cryfaf yn gadarn o ran geirfa, ar draws y profion cafwyd nifer o enghreifftiau o gam-gyfieithu, a hefyd o gyfieithu'n rhy fras i gyfleu union ystyr y gwreiddiol, er enghraifft:

*preventing and alleviating > gwella
requirement > anghenraid
admirable > hyfryd*

stylistically > realistig
my term of office > fy swyddfa
haven't paid your bills > heb dalu'ch tenantiaeth
ideal situation > ysbrydoliaeth

Fel y cyfeiriwyd eisoes, roedd yr aseswyr yn ymwybodol y gallai maes yr ail ddarn fod yn anghyfarwydd i lawer. Roedd yn gwbl hanfodol, felly, bod yr ymgeiswyr yn manteisio'n llawn ar y nodiadau a baratowyd ar eu cyfer, ac a oedd yn cynnwys peth terminoleg allweddol. Yn y gwaith gorau, roedd rhestr enwau'r perfformwyr yn slic a thermâu megis *fado* yn cael eu lle, ond am y pegwn â hynny cafwyd *HMI* (yn lle *EMI*) a *gramaffon ddiwerth (!)* yn lle *Deutsche Grammophon*. Gallai unrhyw gyfieithydd profiadol gael ei hun mewn sefyllfa lle mae maes y drafodaeth yn anghyfarwydd, ac o dan amgylchiadau felly, rhaid gwneud pob ymgais i fanteisio'n llawn ar bob cymorth sydd ar gael, er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r gwrandawyr.

Deall, dehongli a chywirdeb

Roedd y darnau wedi'u dewis yn fwriadol i gynnig her realistig o ran cyflymder, cymhlethdod ac arddull y traethu, a'r prif ddiffyg oedd yn dod i'r amlwg oedd tuedd i gyfieithu'n rhy fras a hepgor elfennau pwysig. Er bod yr ymgeiswyr cryfaf, yn ôl y disgwyl, yn llwyddo i gyfleu holl brif elfennau'r gwreiddiol, wrth wrando ar y cynigion gwannach, gallai'r elfennau oedd yn cael eu hepgor amrywio o eiriau unigol i frawddegau cyfan mewn ambell ymgais.

Cafodd nifer o'r ymgeiswyr drafferth gyda'r elfennau *settled accommodation; overarching reflection; Homelessness Monitor; sole goal; key informants; priority need* yn y darn cyntaf, ac yn yr un modd, roedd *musical tourist; classical purists; thoroughly grounded/trained; became a passion; television commercials* yn achosi trafferth yn yr ail ddarn.

Yn y bôn, un o'r prif wahaniaethau rhwng yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus oedd eu gallu i ymdopi ag elfennau fel y rhain, a sicrhau, hyd yn oed os oedd ambell elfen yn dianc o'u gafael, bod y gwrandawr yn cael darlun cyflawn a chredadwy o'r hyn oedd dan sylw yn y drafodaeth.

Cystrawennu ac idiomau

At ei gilydd, roedd patrymau cystrawennol yr ymgeiswyr yn gadarn, ac ni chafwyd anhawster i fynegi'r hyn a ddywedwyd yn y Saesneg mewn Cymraeg oedd yn ddigon naturiol. Wedi dweud hynny, roedd ambell ymgeisydd yn tueddu i fabwysiadu cywair oedd braidd yn rhy anffurfiol a llafar wrth gyfieithu'r darn cyntaf, e.e.:

amser o'n i'n
y ddeddfwriaeth 'yn
roen i jyst moy'n gofyn

Mewn cyferbyniad, cafwyd rhai enghreifftiau o gyfieithu idiomatig gwyb, lle roedd yr ymgeiswyr nid yn unig wedi llwyddo i gyfleu'r ystyr, ond wedi gwneud hynny mewn ffordd gynhenid Gymreig, e.e.:

dormant – segur
we got together – dethon ni at ein gilydd
a hundred and fifty years ago – ganrif a hanner yn ôl
a huge stir – cynnwrf / cyffro mawr
spread my wings – ehangu fy ngorwelion
remarkable success – llwyddiant ysgubol
frown upon – edrych yn gam

Arddull a Stamina

Yma eto, roedd cryn amrywiaeth yng ngwaith yr ymgeiswyr. Roedd y rhai cryfaf yn llwyddo i gyfleu pwyslais y siaradwr gwreiddiol, ac yn lliwio'n briodol wrth gyfieithu, tra bod eraill yn tueddu i siarad braidd yn undonog, ac yn arbennig yn yr ail ddarn, roedd tuedd i'r holi a'r ateb lithro i'w gilydd yn ddi-fwlch. Hyd yn oed pan fydd cyflymder y traethu'n achosi problem, rhaid ceisio amrywio rhywfaint ar oslef y llais i gyfleu newid siaradwr, er mwyn osgoi drysu'r gwrandawyr.

At ei gilydd, stamina oedd un o'r problemau amlycaf yn y prawf y tro hwn, o bosibl gan nad yw cyfieithwyr ar y pryd yn cael cynifer o gyfleoedd i gyfieithu i'r Gymraeg am gyfnodau estynedig. Clywyd sawl ymgeisydd yn cael trafferth cadw i fyny â chyflymder y traethu, neu'n gorfod gadael bwllch mewn ambell fan wrth redeg allan o stêm. Hyd yn oed os na lwyddir i gyfleu popeth sydd yn y gwreiddiol, mae'n hanfodol bwysig cyfleu'r neges heb adael bylchau mawr, neu bydd y gwrandawyr yn teimlo eu bod wedi'u hynysu, ac yn methu dilyn llif y drafodaeth.

Y CANLYNIAD

Dyfarwyd bod pedwar ymgeisydd yn llwyddo (50%). Yn achos y pedwar ymgeisydd arall, er bod pethau da yng ngwaith pob un ohonynt, teimlwyd eu bod, gwaetha'r modd, heb fedru cyflawni pob un o ofynion y prawf yn llwyddiannus ar y diwrnod. Gobeithio bydd pawb ohonynt, o weld eu graddau a gwrando ar y recordiad o'u gwaith yn y prawf, yn gallu gweld ymhle mae angen cryfhau eu sgiliau, fel eu bod yn llwyddo'r tro nesaf.

GAIR O DDIOLCH

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon i'r aseswyr ac i staff y Gymdeithas am eu gwaith manwl a thrylwyr a'u cefnogaeth.

Dr Fiona Gannon
Mai 2018